YR YMOFYNYDD.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] TACHWEDD, 1898. [RHIF 131.

Y LLONG A'R DYN.

MAE pob rhan o'r llong yn gywrain a rhyfeddol. Yn mhlith gweithiau dyn, dyma yr un sy'n ymddynesu nesaf at waith natur, ac yn ymddangos bron yn fyw. Mae llong wedi cael ei llunio, mewn rhan, ar lun pysgodyn—wedi cael ei mabwysiadu, fel pysgodyn, i dori trwy y dwfr gyda'r gwrthwynebiad lleiaf. Mae wedi cael ei ffurfio mewn rhan, hefyd, ar lun aderyn: mae ei hwyliau, fel edyn yr aderyn, yn cael eu llanw âg awyr, ac y maent yn rhoi ysgogiad i'r corff. Mewn llong, rhaid i bob rhan fod yn gymhesur i bob rhan arall—i fod mewn cyfartaledd hollol i'w gilydd; ac felly mae llong yn dyfod yn waith celfyddyd. Ac mae prydferthwch i'w weled yn fod y rhanau yma mewn cydbwysedd hollol â'u gilydd. Gwnewch beth yn hollol ddefnyddiol, wedi ei addasu yn gywir ar gyfer ei ddyben, ddim yn rhy fawr nac yn rhy fach, ac mae yn dyfod yn waith celfyddyd. Bydded i'r gwrthrych fod yn uchel ac yn anhawdd, ac mae yn dyfod yn gelfyddyd uchel a phrydferth. Mae bod yn berffaith ddefnyddiol yn gyfystyr â phrydferthwch perffaith. Feddyliodd y dynion a adeiladasant longau erioed am brydferthwch; meddylient am ddefnyddioldeb; ond daeth prydferthwch ohono ei hunan gyda'r defnyddioldeb.

Ond er mor gywrain yw pob rhan o'r llong i'r dyn sydd yn byw ar y tir, y peiriant sydd yn llywio yw y mwyaf cywrain. Mae yno lyw bach, bron maes o'r golwg, yn ymddangos mor lleied mewn cymhariaeth i *size* y llong; ond mae y cyfnewidiad lleiaf yn ei gyfeiriad yn newid cwrs y llong. Mae hyn yn beth na ellir braidd cyfrif am dano. Mae yn syndod fod llong yn cael ei gwneyd i hwylio bron yn erbyn y gwynt, a'i gwneyd mor wasaidd ac ufudd â chreadur deallus trwy gyfrwng peth mor ddibwys a llyw. Mae y llong anferthol, ag sy'n plymio trwy y dyfnder, yn cael ei chyfeirio i wledydd pellenig y ddaear trwy un cyffyrddiad ysgafn o'r

llaw ar yr olwyn. Yr oedd llyw llong yn ddarganfyddiad rhyfeddol. Mae yn wir mai y cyfan a wna yw troi y llong i'r dde neu i'r aswy; ond mae y gallu hwnw yn ddigon i'r cadben i'w chyfeirio fel bo'n dewis, er gwaethaf 'storm a thegwch, y niwl a'r creigiau ag ydynt yn gorwedd yn guddiedig o dan y dwfr, yn symud ar hyd y dydd a'r nos, ac yn myned o amgylch y byd i'r hafan y byddis wedi penderfynu arno cyn cychwyn o gartref.

Mae gan *ddyn*, hefyd, lyw ynddo, trwy yr hwn y gall ymrwyfo ar bob moment. Fel mae llyw y llong yw y rhan fwyaf dirgelaidd yn ei gwneuthuriad, felly y llyw mewn dyn yw y rhan fwyaf anesboniadwy yn ei gyfansoddiad. A dyma waith ewyllys rydd. Mae yn gynwysedig yn y gallu o droi i'r dde neu i'r aswy, o wneyd hyn neu y llall, o benderfynu neu o wrthod penderfynu. Nid yw dyn yn rhydd i fod yr hyn mae yn ddewis, neu i wneyd yr hyn mae yn ddewis. Mae yn cael ei gyfyngu gan ddeddfau llym—deddfau ei gyfansoddiad a deddfau amgylchiadau. Rhaid i ddyn sydd wedi cael ei eni yn Affrica fod yn Affricanwr, gyda chymeriad Affricanaidd, ac addysg Affricanaidd; nis gall ef fod yn Ffrancwr nac yn Sais. Nid oedd genyf fi ddim dewis i gael fy ngeni y pryd a'r lle y ces fy ngeni. Nid oedd hi yn un teilyngdod na bai ynof fi fy mod yn meddu ar y meddwl a'r corff ag sy genyf. Nid yw rhyddid dynol ddim yn rhoi i ddyn y gallu i newid ei natur; ond trwy ei fod yr hyn yw, mae yn rhoi iddo y gallu o ddewis y nôd, ac ymgyrchu ato, o dan yr amodau wyf wedi enwi.

Wrth lywio llong, nid yw hi ddim yn ddigon i gael llyw—mae yn rhaid i ni gael rhywbeth i lywio wrtho, rhaid i ni wybod y cyfeiriad. Ar y tir, mae y gwrthrychau sefydlog o amgylch i ni yn dangos pwy ffordd i fyned; ond ar y môr, lle mae pobpeth mewn symudiad parhaus, rhaid i ni gael rhywbeth sefydlog i gyfeirio ein cwrs wrtho. Mae yr haul y dydd, a'r ser y nos, yn cwrdd â'r angen yma; ond mewn tywydd 'stormus o gaddug a thywyllwch, mae yr haul a'r ser yn myned o'r golwg. O ganlyniad, daeth morwriaeth ar radd eang yn bosibl yn unig pan ddarganfyddwyd nodwydd y cwmpas. Fel llawer o ddarganfyddiadau mawrion ereill, nid oes neb yn gwybod yn gywir pryd na chan bwy y daeth. Yr angen greodd y ddyfais. Yn awr, trwy help y nodwydd fechan yma, sydd bob amser yn crynu tua'r gogledd trwy yr atdyniad rhyfeddol oddifewn, gallwn groesi moroedd heb olwg ar haul na ser, a phob amser wybod yn gywir pa ffordd yr ydym yn myned.

Mewn dyn, hefyd, mae cyfrwng cyffelyb i wybod ei gyfeiriad ar bob moment. Yr ydym yn galw y cwmpas mewn dyn yn gydwybod. Mae bob amser yn cyfeirio tua'r de. Y dde yw seren ogleddol cydwybod. Dywed cydwybod: "Yr ydych yn gwneyd yn *right*;" "Yr ydych yn gwneyd yn *wrong*." Ni ddywed wrthym, mae'n wir, beth sy'n *right*, na pheth sy'n *wrong*; ond dywed wrthym fod rhywbeth yn *right*, a rhywbeth yn *wrong*. Mae yn gwneyd dau waith: yn gyntaf, mae yn rhoddi i ni

ddrychfeddyliau mawrion o ddrwg a da—dyledswydd, rhwymedigaeth; ac yna, mae yn cymeradwyo pan yr ydym yn gwneyd yr hyn a gredwn sydd yn *right*, ac yn anghymeradwyo pan yn gwneyd yr hyn a gredwn sydd yn *wrong*. Gwrthwynebir weithiau, pe byddai y fath deimlad moesol mewn dyn, fe gydunai pawb dynion mewn perthynas i'r hyn sy'n *right* a'r hyn sy'n *wrong*; tra mae yn ffaith fod dynion yn gwahaniaethu. Mae y gwrthwynebiad yn gryf pan y dygir ef yn erbyn yr *idea* fod cydwybod yn safon cyfres o foesau. Nid yw hi ddim. Mae yn ein tywys ni yn ol y safon sydd genym. Mae yn rhwystr ac yn atalfa ar y nwydau a'r ewyllys hunanol, yr uchelgais bersonol sydd yn ein llywodraethu ni. Mae yn cyfeirio o hyd at ddeddf fawr lywodraethol uwchlaw dymuniadau hunangar dyn, ac felly yn ein codi uwchlaw ein hunain. Dywed: "'Does dim gwahaniaeth beth ydych yn 'mofyn nac yn ddymuno, mae rhywbeth ag a ddylech wneyd." Fel hyn, mae yn rhyddhau dyn o lywodraeth dymuniad personol yn unig. Mae cydwybod yn rhoi rhybudd i ni pan yr ydym yn myned ar gyfeiliorn. Pan mae yr haul a'r ser wedi eu tywyllu, a'r cymylau yn dychwelyd ar ol y gwlaw; pan yr ydym yn methu gweled Duw yn glir; pan mae syniadau aruchel yr enaid wedi cael eu cymylu; mae y tyst mewnol yma o hyd yn parhau ei waith ffyddlon ac isel. Dywed wrthym: "Dyma'r *right*," a "dyma'r *wrong*." Os gwrandawn ni ar ei rybudd, awn ni nemawr byth allan o'r iawn gyfeiriad. Gallwn ei thywyllu, os ydym yn dewis; gallwn resymu ein hunain i'r gred fod du yn wyn, a gwyn yn ddu; gallwn osod tywyllwch yn lle goleuni, a goleuni yn lle tywyllwch; y chwerw yn lle y melus, a'r melus yn lle y chwerw. Ond yn nyfnderoedd yr enaid, pan yr ydym yn dawel ac yn gwrando ar y llais dystaw main, fe fydd hon i'n rhybuddio ni o'n perygl, a'n harwain ni yn ol at iawnder a gwirionedd. Gallwn beidio gwrando arni, fel mae'r morwr yn esgeuluso edrych ar y cwmpas; ond mae'r cwmpas yno, yn aros i gael edrych arno; ac mae'r gydwybod yno, yn aros i gael ei gwrando.

Wrth lywio llong, heblaw y llyw a'r cwmpas, rhaid i ni gael *chart*. Rhaid i ni gael *chart* o'r môr a'i gyffiniau, er gwybod yn mha gyfeiriad i rwyfo, i wybod am y ffrydiau a'r creigiau a ddichon fod o'r golwg, a'r gwahanol borthladdoedd ag ydynt ar y ffordd. Nid yw y cwmpas ddim yn dyweyd hyn wrthym; yr ydym yn dysgu hyn oddiwrth y *chart*. Fe ddywed y cwmpas yn unig pwy ffordd mae'r *north*, a phwy ffordd mae'r *south*. Pe byddai gyda ni gwmpas a llyw, ond dim un siart, wnaem ni ddim ymgymeryd â mordaith.

Mae ar ddyn, hefyd, eisieu siart i ddyweyd wrtho pwy ffordd i rwyfo—beth ddylai wneyd a pheth ddylai fod. Mae Duw wedi rhoi y *chart* yma iddo yn ei reswm—y goleuni sydd yn goleuo pob dyn a'r y sydd yn dyfod i'r byd. Pan yr ydym yn dawel ac yn gwrando ar ei llais, y mae yn ein dysgu. Yr ydym yn aml yn rhy brysur i wrando, wedi ein boddi gymaint mewn gofalon a

phryderon beunyddiol i beidio aros i'w chlywed. Felly, mae arnom ni eisieu athrawon ereill, arweinwyr allanol i'n bywyd ni. Dyma'r rheswm p'am mae proffwydi ac athrawon yn angenrheidiol i ddyn. Nid yw ei ryddid a'i gydwybod ddim yn ddigon. 'Dyn' nhw ddim yn dyweyd wrtho am ei ddyledswyddau, ei beryglon, a'i obeithion. 'Dyn' nhw ddim yn dangos iddo amcan bywyd, angenion yr enaid, a dybenion Duw o barthed iddo. Y Beibl yw cofnodiad o'r datguddiadau a wnaed i'r fath athrawon. Nid y llyw yw y Beibl; y llyw yw rhyddid. Nid y cwmpas yw; y cwmpas yw'r gydwybod. Y Beibl yw y *chart*, yw y *map;* rhaid ymgynghori âg ef bob dydd er mwyn dangos beth sydd oddiamgylch i ni, a pheth sydd o'n blaen, mewn amser a thragywyddoldeb. Am fod gan y morwr lyw a chwmpas, am fod ganddo olwg ar yr haul gogoneddus a'r ser digyfnewid, am fod ganddo offer ardderchog trwy y rhai y gall gael gafael yn ei lwybr ar y môr, ac am fod ganddo fesurydd amser cywir, a all ef gan hyny fyned heb ei *charts?* Na; maent mor angenrheidiol a'r pethau ereill.

Yr un fath, am fod gyda ninau reddfau godidog a galluoedd mawrion, am ein bod wedi gwneyd cynydd dirfawr mewn gwyddor, a yw yn canlyn y gallwn ni osgoi ymwybyddiaeth proffwydi y gorphenol, doethineb rhagorolion y ddaear, a bywydau ysbrydoledig apostolion? Na allwn.

J. F. C.

(I'w orphen yn ein nesaf.)

ADGOFION YR AMSER GYNT.

'RYM wedi myn'd yn hen, Sioni, a'n gwallt yn deneu iawn;
'Rym wedi rhodio law yn llaw am ddeugain mlynedd llawn;
Nid oes in' gyfoeth byd, Sioni, a'n bwth sy'n oer a llaith,
A styffdra'n cyrff awgryma fod yr henaint ar ei daith.

Gad in' wresogi'r galon oer, tra'n myned ar ein hynt,
Ac agor 'stordy aur, Sioni, yn adgof pethau gynt;
A siarad am yr amser gynt, pan yn ein ie'nctyd gwiw,
'Roedd gwenau'r galon oll i'w gwel'd yn llawen yn ein lliw.

'Rwyn meddwl am y dyffryn gynt, a'r nant a'i swn di-daw,
Ac am yr adar mwyn eu cân, a'r blodau heirdd ger llaw;
A'r modd y darfu in' gwrdd, Sioni, ar ben y bontpren fach;
'Roedd genyt arlant yn dy law o arogl per ac iach.

A hwnw ddodaist ar fy mraich, tra'm llaw yn dy law di—
Dy eiriau am y blodau o'ent dy feddwl arnaf fi ;
Hir arosasom ni uwchben y nant gysgodol hon,
Gan wenu un yn ngŵydd y llall yn siriol iawn a llon.

Nid breuddwyd oedd yr oll, Sioni, ond cariad perffaith, pur,
Fu i ni'n fywyd ac yn nerth, dros ddeugain mlynedd hir ;
Nis medrem siarad ar y pwnc, er cymaint hoffem hyn,
Ond siarad am y tywydd wnaem, ac am newyddion syn.

O'r diwedd d'wedais, " Nos da, 'nawr," troes ymaith, bron yn fud,
Gan ddal yn fy nghrynedig law y garlant hoff o hyd ;
Ond daethost ar fy ol, Sioni, gan dd'weyd, " Mae bron yn nos ;
Ni chei di fyn'd dy hun, Elen, dros ben yr anial ros."

Pe byddai'r oll yn flodau, Sioni, neu adar seingar swyn,
Nis gallent fod yn decach byth na'th eiriau melus, mwyn ;
Yr haul oedd newydd fachlud, a'r lloer ar godi o'i nyth,
A'r borfa las oedd dan ein traed ddechreuai wisgo'r gwlith.

Un frongoch, wedi colli ei ffordd, a hedai heibio'n llon ;
'Rwyf braidd yn gwel'd yn awr, Sioni, y rhuddliw ar ei bron ;
Dy fraich o amgylch i mi oedd, fy llaw 'n dy law—mor glòs !
Dywedaist, " Amddiffynaf di dros ben yr anial ros."

A daethom at y cae, Sioni, yn ymyl tŷ fy nhad,
A cholli dagrau wnaethom 'nawr, prudd-chwerw, a melus, mad ;
Gwelaist fy nagrau i, Sioni, a minau 'th ddagrau di ;
Buost yn amddiffynydd da dros ben y rhos i mi.

Ac 'nawr y toraist allan, Sion, mewn cariad gonest, cu,
Tra'r lloer yn edrych waered o'i gorsedd sanctaidd fry ;
" Mae angen am arweinydd dros ros bywyd," meddit ti ;
"'Rwyf fi'n dy ddewis di, Elen, a gym'ri dithau fi ?"

'Madawsom gyda chusan, do, 'rwy'n teimlo ei swyn yn awr ;
Y cyntaf, nid yr olaf oedd, O ! nage, nage fawr !
Cusenaist fy nghydynau heirdd, sy'n awr mor wyn a'r gwlan,
Gan dd'weyd un ydym—nes del angeu i'n tori ar wahan.

Mae dydd yr angeu'n agoshau, dydd terfyn loes a chlwy ;
Nid oes ond un rhos eto o'n blaen, Pa raid in' ofni mwy ?
'Rym wedi rhwyfo'n galed, ond 'nawr mae'r traeth ger llaw,
A hoff orphwysfa Gariad cu 'n ein haros 'r ochr draw.

Siriola ! cymer 'nawr dy ffon, ffon gadarn ffydd, ffon gu,
Yr hon gyfeiria'th gamrau trwy hen ddyffryn angeu du ;
Os oer a thlawd 'ym ni, Sioni, cyfoethog yw Duw'r hedd,
Fe ddyry in' oll fo'n angen yn awr, a hwnt i'r bedd !

10fed Hydref, 1858. C. F. (Mawrth, 1858.)

T. C. U.

DIODYDD MEDDWOL.

GAN DEWI HIRADDUG, LLUNDAIN.

FFARWEL, mwy, i'ch clwy a'ch cledd,—O! ddiodydd,
Ydych lawn creulonedd;
Parchaf, hir yfaf, er hedd,
Y dw'r hynod ei rinwedd.—*Ioan Deudraeth.*

Tri pheth angenrhaid i ddyn a elo i dafarn:—
Pen cadarn;
Bola gwydyn; a
Chôd drom.—*Catwg Ddoeth.*

PETH anarferol neillduol yn y dyddiau hyn ydyw i un daflu ei olwg dros golofnau newyddiadur wythnosol neu ddyddiol o un math, heb ganfod rhywun, neu rywrai yn rhywle, wedi myned at y mwyafrif oherwydd diodydd meddwol; neu, i siarad mewn iaith fwy eglur, clywir bob dydd am rai—yn wŷr ac yn wragedd—wedi cyflawni hunanladdiad trwy ddiota i ormodedd. Nid oes un diwrnod yn myned heibio heb i ni glywed am effeithiau chwerwaidd hen elyn dyn yn mhob rhan o'r ddaear. Hen elyn dyn—ïe, dyma un o'i elynion penaf, creulonaf, a mwyaf nerthol ef. Y ddiod feddwol—pa enw a roddwn arni? Gelyn dyn—dyfais y diafol—gwas pechod!

"Rhyw foreu Nick a drödd
O'i nyth mewn dillad cochion,
I edrych sut yr oedd
Y ddaear a'i thrigolion;
Yn gorwedd yn y clawdd
Fe welai rhyw ddyn meddw,
A Nick a ddywedai'n hawdd,
'Y peth goreu wnes yw cwrw!'"

Credwn fod Nick o'r un feddwl eto. Y mae Nick yn cael y bai am lawer o ddrygau nas gŵyr ef ddim am danynt; ond yn siwr i chwi, chaiff e' ddim cam oddiar ein dwylaw, pan ddywedwn mai y weithred fwyaf dieflig a gyflawnodd efe erioed ydoedd dyfeisio'r ddiod feddwol. Y mae lle i ofni fod meddwdod ar gynydd trwy Brydain Fawr. Y mae yr achos dirwestol, ag oedd yn

ymddangos mor flodeuog ychydig flynyddoedd yn ol, fel pe bai yn marweiddio. Pa le y mae dirwestwyr brwdfrydig y blynyddoedd diweddaf? Beth sydd wedi d'od o Fyddin yr Ysnoden Lâs, yr hon oedd mor fywiog a gweithgar yn ein gwlad tuag wyth neu naw mlynedd yn ol? Gwnaeth lawer o ddaioni; ac y mae effaith y daioni hwnw yn aros, ac i'w ganfod yma ac acw hyd y presenol. Gresyn na fuasai y fyddin hon wedi parhau i ymladd yn erbyn meddwdod, ac i "fwrw cestyll y diodydd meddwol i'r llawr." Ai tybed fod ein heglwysi a'n capelau yn gwneyd eu dyledswydd yn y maes dirwestol? Onid oes lle i ofni ein bod ni, fel cenedl, yn colli gormod o amser i chwareu gyda rhyw deganau distadl, tra y mae y gelyn meddwol yn gwenwyno yn farwol y milwyr goreu yn ein byddin? Dro yn ol, darllenais mewn rhyw newyddiadur Americanaidd fod, o leiaf, un enwad crefyddol yn y Byd Newydd wedi penderfynu, o hyny allan, na byddai i un pregethwr perthynol i'r cyfundeb gael ei ordeinio i'r weinidogaeth oddieithr iddo yn gyntaf roddi prawf digonol ei fod yn llwyrymwrthodwr â diodydd meddwol. Hyderaf fod y penderfyniad hwnw erbyn hyn wedi dyfod yn rheol gyda hwynt, a bod y rheol hono yn cael ei chadw a'i chario allan i'r llythyren. Beth pe y gwnai pob enwad crefyddol yn Nghymru yr un peth! Anturiaf ddyweyd y ceid gweled gwahanol agwedd ar bethau cyn nemawr o fisoedd.

Wrth ddyweyd hyn, nid ydwyf yn dymuno cael fy neall i awgrymu, ar un cyfrif, fod neb o weinidogion crefyddol Cymru yn llymeitwyr—dim o'r fath beth; ac yn wir, äf mor bell a dyweyd hyn, pe bai y dosbarth hwn o wŷr mawrion ein gwlad mor glir oddiwrth bob anghysondeb arall ag ydynt oddiwrth feddwdod, wel, ni buasai genyf fi, beth bynag, ddim yn eu herbyn. Ond awgrymu yr ydwyf y buasai y gweinidogion, wrth iddynt lwyrymwrthod eu hunain, yn dylanwadu yn llawer mwy effeithiol yn eu pregethau a'u cynghorion ar y cynulleidfaoedd, ac ereill, nag fel y mae pethau yn awr; oblegid, "Trech esiampl na gorchymyn," onide? Anhawdd ydyw i neb fod yn fwy ymwybyddus na'r gweinidog crefyddol o effeithiau dinystriol y diodydd meddwol; oblegid y mae efe beunydd yn myned o dŷ i dŷ i ymweled â'r tlodion, y meddwon, yr afradloniaid, a'r anffyddwyr, ac yn cael cyfle i ganfod anfadwaith y gelyn, ac i ymddyddan âg aml un sydd wedi syrthio yn ysglyfaeth iddo.

Buasai yn hawdd i mi fyned yn mlaen am wythnos i ysgrifenu am y trueni echryslawn ag sydd yn dyfod o dan fy sylw bob dydd yn y ddinas fawr yma—lle y mae mwy o gyfoeth a mwy o dlodi, mwy o arderchogrwydd a mwy o drueni, mwy o orddigonedd a mwy o eisieu, mwy o grefydd a mwy o annuwioldeb, mwy o gapelau a mwy o dafarnau, o gymhariaeth nag mewn un ddinas yn y byd! Ond prin y mae yn angenrheidiol i mi geisio cyfranu llinell at lenyddiaeth helaeth y pwnc dirwestol, heb son am geisio chwanegu, yn fy null egwan fy hunan, at yr hyn sydd, o dro i dro, wedi ei ddyweyd a'i ysgrifenu gan ddynion galluocach a theilyngach i draethu eu llen ar y mater. Ond efallai mai nid

annerbyniol gan y darllenydd fydd y ffeithiau canlynol—rhai ohonynt sydd, yn ddiau, yn ymddangos i gadarnhau yr hyn a ddywedais ar y dechreu, fod yr achos dirwestol yn marweiddio. Y maent, o leiaf, yn taflu golwg go bruddaidd ar bethau, oddiar safle ddirwestol o edrych arnynt. Ond ar y llaw arall, efallai y byddant yn foddion i'n deffroi ni fel dyngarwyr a dirwestwyr at ein gwaith.

Yn ystod tair blynedd o amser, yn diweddu Mehefin 30ain, darllawyd yn Mhrydain Fawr y niferoedd canlynol o farilau o gwrw :—

Blwyddyn.	Barilau.
1890	31,280,672
1891	31,952,601
1892	32,345,154

Gwelir oddiwrth y ffugyrau uchod fod y nifer o farilau darllawedig yn cynyddu yn raddol bob blwyddyn. Y mae yr Americaniaid yn llawer mwy dirwestol a chymedrol na thrigolion Prydain. Y nifer o farilau a werthwyd yn America yn ystod y tair blynedd diweddedig Ebrill 30ain, oedd fel y canlyn :—

Blwyddyn.	Barilau.
1890	26,820,953
1891	30,021,079
1892	31,474,519

Buasid yn tybio fod tafarnwr yn y dyddiau hyn yn un o'r galwedigaethau goreu am dalu. A phwy ond y gweithiwr tlawd, yr hwn sydd yn gwybod beth ydyw llafurio yn galed o foreu hyd hwyr am ei ychydig geiniogau—pwy, meddaf, ond hwn sydd yn cyfranu fwyaf tuag at wneyd i'r fasnach feddwol dalu ? Mewn hysbysiad a welais, dro yn ol, mewn perthynas i un o gwmnïau bragu y Brifddinas (Guinness a'i Fab), dywedwyd fyd £88,838,984 o arian yn elw soddedig mewn anturiaethau darllaw yn y wlad hon, yr hwn swm a adrenir fel hyn :—

	£
Arwystlau ac echwynion	1,859,578
Hawlysgrifau	27,973,855
Rhanau Dewisol	24,717,097
Rhanau Cyffredin	34,288,459
	£88,838,984

Y mae y tabl canlynol yn dangos swm y cwrw, mewn galwyni, ar gyfer pob person unigol o'r boblogaeth, a yfwyd bob blwyddyn o 1856 i 1889. Cymerwyd y ffugyrau o'r hysbysiad swyddol a gyhoeddwyd Ebrill 16eg, 1889 :—

Blwyddyn.	Galwyni.	Blwyddyn.	Galwyni.
1856 ..	22·6 ..	1873 ..	33·3
1857 ..	22·6 ..	1874 ..	34·1
1858 ..	23·6 ..	1875 ..	33·4
1859 ..	24·8 ..	1876 ..	33·8
1860 ..	23·8 ..	1877 ..	32·4
1861 ..	24·3 ..	1878 ..	32·2
1862 ..	24·1 ..	1879 ..	27·9
1863 ..	25·6 ..	1880 ..	27.0
1864 ..	26·7 ..	1881 ..	28·2
1865 ..	29·8 ..	1882 ..	27·1
1866 ..	29·5 ..	1883 ..	27·5
1867 ..	28·2 ..	1884 ..	27·5
1868 ..	28·2 ..	1885 ..	26·4
1869 ..	29·2 ..	1886 ..	26·9
1870 ..	30·2 ..	1887 ..	26·9
1871 ..	29·2 ..	1888 ..	26·8
1872 ..	32·3 ..	1889 ..	28·3

Gwelaf fod Esgob Caerlleon yn cefnogi ei glerigwyr i agor tafarndai! "Paham," gofyna yr Esgob, "na ddylai clerigwyr agor tafarndai yn ogystal a neuaddau cenadol?" Haera yr esgob nad ydyw dynion ddim yn myned i'r dafarn oherwydd rhyw lygredigaeth neu wendid yn y natur ddynol, ond oddiar awydd am adnewyddiant a phleser, yr hyn sydd, o angenrheidrwydd, yn dilyn pob diwrnod gonest o lafur. Ië, ïe, rhagorol, Mr. Esgob! Felly, y ffordd i wneyd dynion yn sobr ydyw cael gwell tafarndai iddynt; a'r peth nesaf a glywir fydd, y mae yn debyg, "fod yr Eglwys yn agored bob Sabbath, cyn ac ar ol y gwasanaeth, i werthu diodydd meddwol o bob math am brisiau rhesymol!" Ac efallai y clywir, cyn bo hir, y person yn gwneyd mynegiant tebyg i'r uchod cyn dechreu ei bregeth boreu Sul.

Y moddion rhag y meddwi,—ïe, 'r cwbl
O'r cabledd a'r rhegi;
Rhag anwn, a'r gwae ini,
Yw'r gras red drwy groes y Rhi.—*Rhisiart o Fadog.*

MR. JOSEPH JENKINS, TRECEFEL, CEREDIGION.

HANA o achau hen, uchel—dyfawl
Dafis, Castell Hywel;
Ei awen mwy 'n win a mel
Tra cof fo'n hil Trecefel,

Seren Gomer, 1856, tudal. 275. J. L. (Tregaron).

MR. THOMAS GEE.

YN marwolaeth Mr. Gee mae Cymru wedi colli un o'i chymwynaswyr goreu yn ystod y ganrif. Wrth ddyweyd hyn credwn ein bod yn datgan teimlad a barn y mwyafrif o'n darllenwyr. I ni yr oedd yn adnabyddus, yn benaf, fel gwleidyddwr. Yn y cylch hwn mae ei enw wedi bod yn adnabyddus i'r holl genedl am yr haner canrif ddiweddaf. Gan gyfran o'r genedl —a'r gyfran fwyaf lluosog o lawer—edrychid i fyny ato gydag edmygedd, ar gyfrif ei ymdrechion i ddysgu i'w gydgenedl eu dyledswyddau, a'u harwain i feddiant o ragorfreintiau mwy; gan gyfran arall yr oedd yn ymgorfforiad o bob drwg. Yr oedd yr hyn a ddywedwyd gan un am Mr. Gladstone, sef, na chafodd neb erioed ei garu yn fwy trwyadl gan un dosbarth, ac na chafodd neb erioed ei gashau yn fwy trwyadl gan ddosbarth arall, yn wir hefyd am Mr. Gee. Daeth i'r maes pan oedd Cymru yn y cadwynau, pan na feiddiai neb ddyweyd yn uchel fod ei enaid ei hun yn eiddo iddo: pan oedd rhyddid barn mewn materion gwleidyddol yn anadnabyddus, a phan na feiddiai neb ddyweyd na gwneyd dim yn groes i feistr y tir. I Mr. Gee, yn yr hwn yr oedd yr egwyddor o ryddid wedi gwreiddio yn ddwfn—braidd ŀa ellir dyweyd ei fod yn etifeddiaethol iddo—yr oedd y cyflwr hwn yn un hollol anghydweddol âg ysbryd rhydd y grefydd a broffesai, ac a broffesid hefyd gan ei gydgenedl, a thaflodd ei hun yn gorff, meddwl, ac enaid, i'r gwaith o geisio ei deffroi o'i chysgadrwydd a'i chaethiwed mewn ystyr wleidyddol; fel yr oedd yr hen ddiwygwyr Cymreig wedi gwneyd yn y cylch crefyddol gyda'r fath ganlyniadau gogoneddus. A byth oddiar hyny hyd ddydd ei farwolaeth, cadwodd ei olwg yn ddiorphwys ar yr amcan hwn; a gwyddom ni yn awr pa mor bell y llwyddodd i sylweddoli ei amcan.

Yr ydym eto yn rhy agos ato i allu gwerthfawrogi a sylweddoli gwerth y gwasanaeth a wnaed ganddo yn y deffroad—hyd yn nod y chwildroad—sydd wedi cymeryd lle mewn gwleidyddiaeth yn Nghymru. Pan ddaw'r amser i ni i wneyd hyn, gwelwn, a gwel ein disgynyddion, mor fawr oedd y rhan a berthynai i Mr. Gee yn y gwaith. Ond nid mewn gwleidyddiaeth yn unig y gwasanaethodd ei wlad. Mae llenyddiaeth Gymreig wedi ei gael yn gyfaill ac yn noddwr o'r dechreu. Fel perchenog y ddwy *Faner* mae wedi bod yn arweinydd mewn newyddiaduraeth Gymreig. Ond heblaw hyn, mae ei argraffwasg wedi cyflenwi Cymru â rhai o'i phrif weithiau llenyddol. O'r gweithiau hyn, y mwyaf pwysig yn ddiamheu yw *Y Gwyddoniadur Gymreig*. Mae hwn, heb un amheuaeth, yn orchestwaith. Ac nid anturiaeth fechan oedd ei ddwyn allan—amlygai ffydd ddihysbydd y cyhoeddwr yn archwaeth lengar ei gydwladwyr. Mae mawredd yr

anturiaeth yn amlwg oddiwrth y ffeithiau canlynol, sef, fod y gwaith wedi cymeryd chwarter canrif yn ei barotoad; fod ei ddygiad allan y tro cyntaf wedi costio i'r cyhoeddwr dros £20,000; fod yn y llyfr dros 10,000 o erthyglau gwreiddiol, wedi eu hysgrifenu gan brif lenorion y genedl. Mae'r ffaith fod yr anturiaeth wedi troi allan yn llwyddiant wedi llwyr gyfiawnhau ffydd Mr. Gee yn ei gydgenedl. Trueni na cheid rhyw gynllun, megys ei gyhoeddi yn rhanau am bris rhesymol, i alluogi pob Cymro llengar i feddianu copi o'r gwaith gwerthfawr hwn. Mae ei bris, fel y mae yn cael ei gyhoeddi yn awr, yn ei osod tuallan i gyrhaedd miloedd a fyddent, yn ddiamheu, yn falch i'w gael.

Yr oedd yr un nodweddion yn perthyn i Mr. Gee fel crefyddwr ag a berthynai iddo fel gwleidyddwr; argyhoeddiadau dyfnion o wirionedd y ffurf o grefydd a broffesid ganddo, ffyddlondeb yn ei ymlyniad wrthi, gwroldeb yn ei amddiffyniad ohoni. Mewn trefniant eglwysig, yr oedd yn Fethodist. Mewn duwinyddiaeth, yr oedd yn Iawnffyddwr o'r Iawnffyddwyr. Efallai ei fod yn ymddangos i rai ohonom yn gul. Ond pan y cymerwn un ffaith i ystyriaeth, cawn eglurhad ar yr ochr hon o'i gymeriad, a gallwn yn hawdd basio heibio iddo mewn canlyniad. Iddo ef yr oedd Iawnffyddiaeth yn wir. Mewn ymlyniad wrthi yn unig yr oedd dyogelwch; a thuallan iddi nid oedd ond perygl a dinystr sicr. Yr oedd hyn yn argyhoeddiad byw ynddo, a'r argyhoeddiad hwn a'i gwnelai mor elyniaethus tuag at y syniadau sydd i ni yn gysegredig. Mae un (ni chofiwn pwy, ac nis gwaeth), wedi dyweyd—yn nesaf at fod yn lle Serfed a losgwyd, y dymunai efe fod yn lle Calfin a'i llosgodd.

Parchwn ddyn o argyhoeddiadau dwfn a gonest, gan nad pa mor bell yr arweinir ef gan yr argyhoeddiadau yma, yn enwedig os mai lles dynoliaeth fydd mewn golwg ganddo, yn mhob peth a wna. A phan y cofiwn am y gwaith sydd wedi ei wneyd gan Mr. Gee i'w genedl, am ei gymeriad dysglaer, am ei ffyddlondeb trwy ei oes hirfaith i'r hyn a gredai oedd yn iawn, mae ein hedmygedd ohono yn rhwym (ac yn sicr) o beri i ni anghofio yr un ffaeledd hwn a berthynai iddo. Yn mhlith y rhes hirfaith o Gymry rhagorol sydd yn llanw tudalenau hanes ein gwlad, mae Mr. Gee yn teilyngu cael ei restru ar gyfrif ei ymdrechion o blaid pob achos oedd â'i amcan i lesoli y genedl, ei ffyddlondeb i'w egwyddorion, a'i gymeriad moesol uchel; a bydd y goffadwriaeth am dano yn aros yn ffynonell o ysbrydoliaeth i ereill fydd yn d'od ar ei ol i gario y gwaith y llafuriodd efe mor galed drosto i sylweddoliad mwy cyflawn.

Hydref 2il, 1898. EDMYGYDD.

CILIAU A RHYDYGWIN.—Cynaliodd yr eglwysi hyn eu cyfarfodydd diolchgarwch dydd Mercher, y 12fed cyfisol. pan y pregethodd y Parchn. T. A. Thomas, Pantydefaid, a Lewis Williams, gweinidog yr eglwysi, ar yr achlysur. Cafwyd cynulliadau da, a gwnaed casgliad yn Nghiliau at y Gymdeithas Undodaidd Brydeinig a Thramor.

CLUDWN FANER NEF.

GRISTIONOGION, ymwrolwn,
Cludwn faner Nef;
Dros ein hachos, cydymladdwn;
Cludwn faner Nef;
Gwrthwynebwn ddrygau ynfyd,
Sydd yn duo ffyrdd y bywyd,
Mynwn dramwy llwybrau gwynfyd;
Cludwn faner Nef.

Awn yn lluoedd i'r cwrdd gweddi,
Cludwn faner Nef;
Dyma hyfryd fan i ddysgu
Cludo baner Nef;
A chael gwrando yr aelodau
Yn cyfeirio eu gweddïau
At eu Tad, mewn dymuniadau,—
Cludo baner Nef.

Mae'r gyfeillach yn ein dysgwyl,
Cludwn faner Nef;
O! grefyddol-hapus orchwyl—
Cludo baner Nef;
Mewn cyfeillach gyda'r brodyr,
A chael derbyn dafnau cysur
O benodau yr Ysgrythyr;
Cludwn faner Nef.

Awn i'r Ysgol Sul yn gryno,
Cludwn faner Nef;
Llais dyledswydd ddywed yno—
Cludwch faner Nef;
Dysgwn wers i'r do sy'n codi—
O! mae angen am hyfforddi
Y rhai bach,—i'w cael i allu
Cludo baner Nef.

Awn i wrando y pregethwr,
Cludwn faner Nef;
Boreu gofiwn ein Creawdwr,
Cludwn faner Nef;
Ymbleserwn mewn daioni
Yn wastadol, byddwn felly
Yn ddilynwyr da i'r Iesu;
Cludwn faner Nef.

Dros heolydd siomedigaeth,
Cludwn faner Nef;
Trwy gymylau profedigaeth,
Cludwn faner Nef;
Mynwn grefydd wirioneddol,
Rhyngwn fodd y Duw trag'wyddol,
Awn i'r gad yn filwyr gwrol;
Cludwn faner Nef.

Awn yn hyf trwy ganol rhwystrau;
Cludwn faner Nef;
Os i'n rhan y daw gofidiau,
Cludwn faner Nef;
I gydymddwyn mewn tangnefedd,
Bwriwn ymaith bob anwiredd,
Ymarferwn y gwirionedd;
Cludwn faner Nef.

Ymwrolwn, Gristionogion,
Dros yr hyn sydd dda;
Ymwrolwn fel y dewrion,
Dros yr hyn sydd dda;
Gwrthwynebwn ddrygau ynfyd
Sydd yn duo ffyrdd y bywyd;
Ymwrolwn, byddwn ddiwyd;
Dros yr hyn sydd dda.

Trebanos. BANOS.

YR ESGID FACH.

PENOD I.

YMAE yn agos i ddeng mlynedd a thriugain er pan gymerodd yr hanes ag wyf yn myned i'w adrodd le. Ar ochr ffordd unig a amgylchai gallt o goed, wrth odreu un o fynyddoedd Cymru, y safai bwthyn bychan. Yr oedd y ffenestri wedi eu gorchuddio, a'r lle yn dywyll. Ar hyd y ffordd a elai heibio i'r bwthyn, y cerddai teithiwr. Yr oedd wedi bod yn bwrw eira trwy y dydd, ac yr oedd yr awel yn chwerw o oer. Tynai y teithiwr ei gôt garpiog yn dynach am dano, a chrynai.

"Dyma noswaith ofnadwy," meddai. "'Does dim goleu yn y gegin. Sut mae hyny, wŷs? Gobeithio nad yw yr un bach ddim yn waeth. Rhaid i mi frysio."

Aeth yn ei flaen yn gynt; ac wedi cyrhaedd y drws, ysgydwodd yr eira oddiar ei ddillad, ac aeth i'r tŷ.

"Wel, Beti, 'feddyliech chwi na chyrhaeddwn i byth adref?" P'am ydych yn eistedd yn y tywyllwch fel hyn, 'merch i?" gofynai, ac aeth i gyneu canwyll. Yna y gwelodd nad oedd ei wraig yn ei lle arferol ar bwys y tân, ac yr oedd y cryd ar yr aelwyd yn wag. Teimlai y gwr boen dirdynol o gylch ei galon, a brysiodd i fyny y grisiau culion i'r ystafell fechan uwchben, gan gario'r canwyll yn ei law.

Yno yr oedd ei wraig yn eistedd yn y gadair siglo, ac yn gwasgu corff marw ei phlentyn at ei mynwes.

"Fy Nuw!" ebai mewn llais dolefus, "a yw Beni bach wedi marw? Beti, d'wedwch rywbeth," meddai, gan geisio cael y corff oddiwrthi. Syllai hi yn wyllt ei threm arno, a gafaelai yn y corff bach.

"Druan o Beti, mae yn mron d'rysu," meddai. Yna edrychodd drachefn ar y gwyneb bychan marw. "Mae yn rhy ddrwg," llefai; "yr oedd yr un diniwed fel byw fy llygad. Bwriadwn ei anfon i'r ysgol, a rhoi iddo yr addysg na chafodd ei dad erioed mohoni; ac ar ol iddo dyfu, bwriadwn roi crefft dda iddo; ac yn awr——"

Eisteddodd y dyn cadarn 'lawr, ac wylodd yn chwerw-dost. Ei gyntafanedig oedd y plentyn, er ei fod ef yn briod â Beti er's dros ddeng mlynedd. Bu y plentyn farw yn fuan wedi i'w dad adael y bwthyn yn y boreu i fyned at ei waith.

Cyn hir aeth yn ol i'r gegin i geisio meddwl beth a ddylai wneyd. Ar ol dwys ystyried am ychydig, aeth allan i'r drws, gan furmur:—

"'Dyw wiw yn y byd i lefain. Rhaid cladu yr un bach, a myfi sydd i wneyd hyny. 'Does gen i ddim arian i'w gladdu, ond chaiff gwŷr y *workhouse* ddim cwrdd â 'mhlentyn."

Ar ol chwilio, cafodd afael ar ddwy astell deneu, ac ohonynt gwnaeth arch. Cymerodd y gobenydd bychan o'r cryd, ac a'i gosododd yn y *coffin*. Wed'yn, pan oedd pobpeth yn barod, aeth i lan y grisiau i 'mofyn y corff. Gwelodd fod ei wraig yn eistedd yno o hyd, ond yr oedd ei llygaid yn nghau, a'r plentyn marw yn gorphwys yn groes i'w gliniau. Cododd ef yn esmwyth. Cariodd ef i'r gegin, ac a'i dododd yn y *coffin*; yna, gan roi un cusan yn rhagor ar y gwyneb gwelw, oer, hoeliodd y clawr.

Yn mhen ychydig bach o fynydau, gyda chaib a rhaw ar ei ysgwydd, a'r *coffin* bach a'r ganwyll, efe a aeth allan unwaith eto i'r eira a'r oerfel.

Wedi cerdded yn galed am tuag awr o amser, daeth at lecyn tawel yn nghanol y goedwig, ac yno, yn nghanol yr unigedd a'r dystawrwydd, efe a gladdodd gorff ei blentyn.

"Mi wn nad yw yn iawn," gruddfanai. "'Dyw hyn ddim yn gladdedigaeth Gristionogol, yn ol syniad y byd. Ond fe wyr Duw 'mod i'n dlawd, ac mae E'n deall."

Yna, gan linio ar bwys y bedd, a dwylaw yn mhleth, efe a ddywedodd:—

"Arglwydd, derbyn enaid fy machgen. Cymer ef i'th

fynwes. O Dduw! efe oedd yr oll oedd gyda ni; ond Dy ewyllys Di a wneler."

Cododd oddiar ei liniau; ac ar ei waith yn gadael y fan efe a glywai swn. Arosodd; clustfeiniodd. Daeth y swn drachefn.

"Llais menyw yw," meddai, a chyfeiriodd at y fan o b'le y daeth y swn.

"Y Nefoedd fawr! gwraig a phlentyn yn gorwedd yma yn yr eira."

Wrth blygu ac edrych yn ngwyneb y wraig, gwelai ei bod wedi marw. Dechreuodd y plentyn lefain, a chododd y dyn ef yn ei freichiau.

"Gall hwn farw, hefyd, os gadawa 'i ef yma yn yr oerfel. Mi a'i dygaf adref."

Ar ol enyd, ymddangosai fel pe bai rhyw syniad hapus wedi ei daro, a dyma fe yn gwaeddi allan:—

"Gwnaf—yn sicr, mi a'i gwnaf."

Pan gyrhaeddodd efe y bwthyn yr ail waith, cafodd ei wraig a'i llygaid yn nghau, fel y gadawodd hi. Nid oedd wedi symud. Mewn moment, tynodd ei wisgoedd prydferth oddiam y plentyn, ac mor dyner a mam, gwisgodd ef yn un o wisgoedd ei blentyn ei hunan. Yna cariodd ef i'r llofft; gosodod ef ar arffed ei wraig, ac aeth yn ol i'r gegin. Wrth blygu a gosod o'r neilldu ei ddillad, efe a gododd oddiar y llawr esgid fechan o frethyn coch. Chwiliodd am yr esgid arall, ond methodd a'i chael. "Efallai iddi syrthio ar y ffordd," ebai, ac yn ofalus dododd yr esgid i gadw gyda'r trysorau ereill.

Bu Beti yn wael am dymhor hir; a phan y gwellhaodd, hawdd oedd ei darbwyllo mai rhywbeth a grewyd gan ei dychymyg oedd y plentyn marw, ac mai ei baban hi oedd yr un byw.

Penod II.

Aethai pum' mlynedd heibio er pan ddygodd John adref y baban a gafodd efe yn yr eira. Mae John wedi marw. Cwrddodd â damwain tua deufis cyn hyny, a chariwyd ef i ysbyty mewn tref gyfagos. Cyn iddo farw, dywedodd wrth Beti am y modd y cafodd efe y plentyn, a therfynodd yr hanes fel hyn:—

"'Rwy'n siwr y gwnewch faddeu i mi am eich twyllo c'yd. Fy rheswm yw, y gwyddwn y galarech yn hir am ein plentyn ni. Parhewch i'w garu, Beti, a meithrinwch ef yn y ffordd iawn. Mi wn y gwnewch. 'Dyw fy amser i ond byr. Codwch ef i'r làn, a gadewch i mi roi cusan iddo, Beti."

Gwnaeth y wraig fel y dymunai, a pharhaodd yntau i siarad, er gyda chryn anhawsder:—

"Ffarwel, fy machgen. Bydd yn blentyn da iddi, oblegid mae hi wedi bod yn fam dda i ti. Beti, arferwch ef i fyned i dŷ Dduw. 'Rwy'n eich gadael yn ddigon tlawd eich byd, ond fe helpia Duw chwi yn eich holl galedi."

Er pan fu John farw, bu raid i Beti weithio yn galed er

mwyn gallu talu y rhent a byw yn weddol gysurus. Yn awr, fodd bynag, dechreuai ei hiechyd ballu, ac edrychai yn llwyd a gwywllyd. Erbyn hyn, yr oeddys wedi tori lluaws o'r coed o amgylch y bwthyn, ac wedi adeiladu rhes o dai destlus yn ei ymyl. Yr oedd yno gynifer o siopau, a safai eglwys ac ysgoldy heb fod yn nepell oddiyno.

Ar ddiwrnod tesog yn mis Mehefin, eisteddai Beti mewn cadair freichiau fawr ar bwys y ffenestr yn gwnïo, a chwareuai Beni bach hefo'r gath. Yn fuan, gwelodd y llanc fod ei fam wedi syrthio i gysgu, ac aeth yntau yn ddystaw bach i'r drws ac edrychodd allan. Yr oedd golwg brydferth ar y wlad; ac yn cael ei swyno gan gân felus yr adar, aeth y plentyn allan i'r ardd, ac eisteddodd ar y glaswellt.

"Mae mam yn dost iawn; yr ydym mor dlawd fel nad oes ond ychydig o fara yn y cwpbwrdd, ac mae eisieu bwyd arna' i yn awr," meddai. "D'wedodd 'nhad yr helpiai Duw ni pan mewn caledi; ac 'rwy i 'n myn'd i chwilio am dano, a d'weyd wrtho fod 'mam yn dost. Mae hi yn cysgu'n awr; ac ond i fi redeg, efallai y dof yn ol cyn y dihuna."

Rhedodd y llanc allan trwy ddrws yr ardd cyn gynted ag y gallai, yn nghyfeiriad yr eglwys, gan aros yn awr ac eilwaith ar drothwy rhyw ddrws i orphwys. O'r diwedd, cyrhaeddodd yr eglwys gyda bod y bobl yn dyfod allan o honi. Aeth yn mlaen at foneddiges oedd wedi ymwisgo yn hardd dros ben, a gofynodd iddi:—

"Os gwelwch yn dda, m'am, ai tŷ i Dduw yw hwn?"

"Ië, fy mhlentyn, eglwys yw hi," ebai'r foneddiges, wedi ei synu yn hytrach gan y gofyniad.

Edrychodd y plentyn at yr adeilad gyda'i lygaid yn llawn rhyfeddod, ac meddai yn sydyn:—

"A yw Ef i mewn?"

Trodd y foneddiges ei gwyneb draw i guddio y wên a chwareuai ar ei gwyneb.

"Oblegid d'wedodd 'nhad y gwnai Efe ein helpu, ac 'rwy' am help 'nawr," meddai y plentyn yn bryderus, gan gyfeirio at ddrws yr eglwys.

Tynodd y foneddiges ef i gysgod y drws, a dywedodd wrtho yn dyner:—

"Fy machgen, mae Duw yn y nefoedd."

"Ydyw, m'am; ond yr wyf wedi gofyn iddo droion am ein helpu ni, ond 'dyw E' ddim yn clywed. Mae yn dyfod i'r tŷ hwn weithiau, onid yw?"

Bu y foneddiges yn ddystaw am ychydig fynydau, ac yna dywedai:—

"B'le'r y'ch yn byw, fy mhlentyn?"

Dywedodd yr un bychan wrthi; ac wedi iddi ei godi i'r cerbyd wrth ei hochr, archodd i'r cerbydwr i yru i gyfeiriad cartref y plentyn. Ar ol teithio am dymhor, dyma'r llanc yn gwaeddi—

"Hwn yw ein tŷ ni," a chan gydio yn llaw y foneddiges, arweiniodd hi trwy yr ardd dlos hyd at ddrws y bwthyn.

"Sut yr y'ch chwi? Yn awr, peidiwch a gwylltu yn y mesur lleiaf," ebai'r ymwelydd yn garedig, wrth gymeryd ei chadair a dechreu egluro yn mha le y cafodd hi y plentyn. Teimlai yn flin dros yr hen wraig, oblegid fe welai ofid a phryder yn ei gwyneb prudd. Nid hir y bu cyn deall holl hanes trist y weddw diawd.

"Ac wrth gwrs, 'rwy'n ei garu â'm holl galon, er nad yw yn blentyn i mi," meddai; "a gofidus yw meddwl nad oes neb i ofalu am dano pe byddai rhywbeth yn dygwydd i mi."

"B'le yr y'ch chwi yn d'weyd y cafodd eich gwr ef?" meddai y foneddiges yn sydyn.

"Yn y goedwig, oddeutu tair milldir oddiyma. Yr wyf wedi cadw y dillad oedd am dano pan ddaeth John ag ef adref y noson ystormus hono. Mi a'u dangosaf i chwi;" ac ymaith a hi i'r coffr. Tynodd allan y wisg brydferth a'r un esgid fach, ac a'u gosododd hwy ar y bwrdd.

Wrth weled yr esgid, rhoddodd y foneddiges ochenaid drom; a chan chwilio ei llogellau yn frysiog, tynodd allan esgid arall yr un ffunud a hi. Yna cariodd y plentyn, a safai yn syn ger llaw, at y ffenestr, ac edrychodd yn ofalus ar ochr isaf ei fraich chwith.

"Ië," meddai yn wyllt; "dyma'r groes, man geni fy mhlentyn;" a chyda'r gair, gwasgodd y plentyn at ei mynwes, ac a'i cusanodd. Safai yr hen wraig fel un wedi ei syfrdanu. Ac mewn llais wylofus, hi a ddywedodd:—

"Eich plentyn? Os felly, chwi a'i cymerwch oddiwrthyf. Cofiwch mai efe yw fy unig gysur."

"Na," meddai'r foneddiges; "ni chewch eich gwahanu. Cewch dd'od gyda mi eich dau."

Yna hi a eisteddodd i lawr ac a eglurodd:

"Pan gafodd eich gwr afael ynof, tybiodd fy mod wedi marw; ond fe gamsyniodd. Yr oeddwn wedi syrthio mewn llewyg. Dyoddefaswn oddiwrth dwymyn yr ymenydd; a phan ddygwyddodd y forwyn fod allan o'r ystafell, codais o'r gwely, a diangais maes a'r plentyn gyda fi. Yn mhen amser, cafodd fy ngwr ac ereill afael ynof; ond er galar i bawb, yr oedd y plentyn wedi myn'd. Tybid mai wedi ei ladrata yr oedd, a chwiliwyd am dano yn mhell ac yn agos; ond y cyfan i gyd yn ofer. Ac i feddwl ein bod wedi cael gafael ynddo yn y diwedd! Bydd ei dad yn llamu o lawenydd."

Mynodd y foneddiges ddwyn yr hen wraig a'r llanc adref gyda hi yn y fan; ac yn awr, maent yn hynod hapus, yn nghanol eu digon.

Nid oes gan ddyledswydd symi le i ofn.

SEFYDLIAD Y PARCH. TYSSUL DAVIS, B.A., YN NGHAERDYDD.

TRWY ymsefydliad Mr. Tyssul Davis yn weinidog ar yr eglwys Undodaidd yn mhrif dref Cymru, yr ydym yn credu, ac yn gobeithio, y daw yr eglwys i agosach cysylltiad â'r eglwysi Undodaidd ereill, ac y bodola mwy o'r gyfeillach hono rhwng y gweinidog newydd-apwyntiedig â'i frodyr yn y weinidogaeth, nes y teimlir ein bod ni yn gydweithwyr yn yr achos da, ac yn awyddus am sicrhau llwyddiant goreu ein crefydd. Eglwys Saesoneg yw eglwys Caerdydd, ac y mae yn dygwydd, rywfodd, nad yw y Cymry a'r Saeson yn dyfod i ddigon o adnabyddiaeth â'u gilydd i symud y dyeithrwch a fodola rhyngddynt yn rhy aml. Anffawd ac anfantais yw hyn; ond credwn ein bod yn dechreu ar gyfnod gwell yn hanes ein heglwysi, yr hwn a esgora ar well dealldwriaeth, ac, o ganlyniad, well cydweithrediad rhwng y gwahanol adranau.

Mae Mr. Davis wedi cychwyn ar waith ei weinidogaeth o dan yr amgylchiadau mwyaf ffafriol. Yn ystod y cyrddau sefydlu ni welsom nemawr erioed fwy o frwdfrydedd a mwy o awydd cario yr holl drefniadau i derfyniad gogoneddus nag a welsom yn Nghaerdydd. Ffrwyth y brwdfrydedd a'r awydd hyn oedd cyrddau godidog dros ben. Eglwys gymharol ieuanc yw yr eglwys. Agorwyd y capel yn 1887, er fod gwasanaeth yn cael ei gario yn mlaen yn y dref rai blynyddoedd cyn hyny. Y gweinidog cyntaf oedd y Parch. Hobart Clark, gŵr o'r Amerig, yr hwn, ar ol bod yn dra defnyddiol yn Nghaerdydd am dymhor, a aeth yn ei ol drachefn i'r Amerig. Dilynwyd ef gan y Parch. Owen J. Jones, mab i weinidog Annibynol o swydd Fynwy, ac Annibynwr ei hunan, hyd nes cafodd rhyw gipdrem, na pharhaodd yn hir iawn, mai Undodiaeth oedd y ffurf o grefydd agosaf at ysbryd addysgiadau Iesu. Mae yntau, erbyn hyn, wedi myned yn ol at ei gariad cyntaf. Ar ei ol ef daeth y Parch. George St. Clair, gŵr galluog, a'r hwn a lafuriodd yn galed fel cenadwr, yn myned oddiamgylch i ledaenu egwyddorion Undodiaeth yn ngwahanol barthau o Gymru. Mr. Davis yw olynydd Mr. St. Clair, a chredwn ei fod yn wir deilwng i wisgo y fantell a wisgwyd gan y tri chadarn wŷr a fuont yn gweinidogaethu o'i flaen.

Dechreuwyd y cyfarfodydd sefydlu ddydd Sul, Hydref 2il, pryd y gwasanaethwyd yn y boreu gan y Parch. S. A. Steinthal, gŵr y mae ei enw yn dra adnabyddus i'r rhan amlaf o Undodiaid Cymru. Traddododd bregeth a erys yn hir yn nghof y sawl a'i clywsant, yn enwedig y geiriau dwys â pha rai y terfynodd:— "Duw a'ch benditliio, fy mrawd, yr ydych heddyw yn dechreu ar eich gwaith sanctaidd, ac a'ch galluogo chwi i gyfranu Gair y Gwirionedd, ac i arwain eneidiau lawer i gymundeb agosach â'r Tad, yn ysbryd Crist; a bendithied hefyd y bobl y gwasanaethwch iddynt, fel y byddoch yn wir ddilynwyr Crist, yn byw mewn

ıeddwch ac ymddiried, ac yn peri i'r gynulleidfa hon fod yn fan yr ä goleuni allan ohono i lawer lle tywyll, i helpu i dywys y crwydryn gwrthodedig yn ol i Deyrnas Nefoedd, ac i'r bywyd sydd yn dragywyddol." Yn y prydnawn pregethodd y Parch. Ddr. Griffiths, Pontypridd, yn Gymraeg, i gynulleidfa dda, ac yn yr hwyr cafwyd pregeth odidog arall gan Mr. Tyssul Davis. Ei destyn oedd, "Yr Eglwys fel y dylai fod;" ac os oedd y bregeth yn flaenbrawf o'r hyn a fwriada y gweinidog newydd roddi i'w braidd, gallwn longyfarch yr eglwys yn galonog ar ei ffawd dda yn sicrhau gwasanaeth gŵr mor alluog. Parhawyd y cyfarfodydd hydd Llun. Am dri yn y prydnawn, dygwyd gwasanaeth crefyddol yn mlaen yn y capel. Aethpwyd trwy y rhanau defosiynol gan y Parch. Walter Lloyd, Gloucester, a thraddodwyd pregeth feistrolgar iawn gan y Proff. Estlin Carpenter, M.A., Rhydychain; ond er yn feistrolgar, yr oedd yn hollol syml mewn iaith, fel y gallai pawb ei deall. Ar ol y cyfarfod hwn, darperid ymborth yn yr ysgoldy, a daeth torf fawr yn nghyd i gyfranogi ohono.

Yn yr hwyr, cynaliwyd cyfarfod cyhoeddus drachefn yn yr ysgoldy, o dan lywyddiaeth Mr. T. Yates, un o aelodau mwyaf ffyddlawn a gweithgar yr eglwys. Cyn cychwyn ar y gweithrediadau, darllenodd yr Ysgrifenydd luaws o lythyrau oddiwrth foneddigion yn datgan eu gofid am nas gallasent fod yn bresenol i estyn croesaw gwresog i'r gweinidog ieuanc ar drothwy ei yrfa yn y dref. Ysgrifenai un gŵr parchus o Fedyddiwr, yn honi ei anallu i bresenoli ei hun yn herwydd y gagendor mawr a fodolai rhwng yr Undodiaid a'r Bedyddwyr. Nodweddid y cyfarfod hwn gan frwdfrydedd mawr—y siaradwyr i gyd yn siarad yn ardderchog dros ben. Ni cheisiwn wneyd rhagor nag enwi y sawl a gymerasant ran: Mr. G. Carslake Thompson, ar ran yr eglwys; Proff. Carpenter; y Parchn. S. A. Steinthal; Dr. Griffiths; J. Hathren Davies; Walter Lloyd; J. Austin Jenkins, B.A., *registrar* y Brifathrofa yn Nghaerdydd; Jeffery Worthington, B.A.; a Tyssul Davis. Yn ystod y nos hefyd canwyd amryw o anawdau gan aelodau o'r eglwys. Dymunwn lwyddiant mawr i'r aniad, a boed canlyniadau cyfoethog i ddilyn.

NODION A SYLWADAU.

AR y 29ain o Fedi, cychwynodd y Parch. Fletcher Williams ar ei daith i'r India. Bwriada Mr. Williams dreulio tair blynedd fel cenadwr yn mhlith Undodwyr a chyfundebau crefyddol cydrywiol ereill yn y wlad bellenig uchod. Mae yn yr India amryw achosion yn cymeryd arnynt yr enw Undodiidd; ac yn ychwanegol at hyn, mae yno amryw bleidiau crefyddol ereill, y rhan fwyaf o ba rai ydynt wedi tarddu o'r anudiad a ddechreuwyd gan y diweddar Keshub Chunder Sen. Mae y rhai hyn, er na chydnabyddant eu hunain fel Undodiaid,

eto yn proffesu yr un egwyddorion. Amcan cenadaeth Mr. Williams yw, nid gwneyd y rhai hyn yn Undodiaid, ond, yn hytrach, uno y gwahanol bleidiau hyn yn yr ymdrech i ddwyn syniadau mwy rhesymol am grefydd i sylw trigolion yr India. Mae y gwaith yn fawr.

——:o:——

Tra mae un blaid yn yr Eglwys Wladol a'i gwyneb tua Rhufain, mae plaid arall ynddi a'i gwyneb mewn cyfeiriad hollol wahanol. Yn Bradford, ar y 29ain o Fedi, ffurfiwyd cymdeithas o Eglwyswyr er hyrwyddiant syniadau crefyddol mwy Rhyddfrydig yn yr Eglwys. A ganlyn ydynt brif egwyddorion y gymdeithas hon:—(1) Diwygio llygredigaethau yn yr Eglwys; (2) Dadleu hawl lleygwyr i gael mwy o ran yn llywodraethiad yr Eglwys; (3) Meithrin ysbryd mwy cymodol tuag at Ymneillduwyr, gyda'r amcan i wneyd Eglwys Loegr yn Eglwys wir Genedlaethol; (4) Gwneyd defnyddio Credo St. Athanasius yn ddewisol; (5) Derbyn pob gwirionedd sefydledig. Hoffem wybod yn fawr faint o Eglwyswyr sydd yn cydfyned âg amcan y gymdeithas hon?

——:o:——

Cydnabydda Archesgob Caergaint fod camsyniadau yn y Beibl. I'n golwg ni, nid yw hon yn gydnabyddiaeth bwysig. Eto, mae yn bwysig pan y cofiom ei bod wedi cael ei gwneyd gan benaeth Eglwys, swm addysgiadau yr hon hyd yma yw fod y Beibl yn anffaeledig. Hefyd, yn y Gynghres Eglwysig, a gynaliwyd yn ddiweddar yn Bradford, rhoddwyd datganiad i lawer o syniadau na ddysgwyliem iddynt gael eu datgan ar lwyfan cyfarfod Eglwysig.

——:o:——

Yn ei araeth yn un o gyfarfodydd Undeb y Bedyddwyr Saesoneg yn ddiweddar, dywedodd Dr. John Watson (Presbyteriad) nas gallai gredu y syniad fod y paganiaid nad oeddynt wedi clywed yr Efengyl yn dragywyddol golledig. Lled oeraidd oedd y derbyniad a gafodd y datganiad hwn gan y gynulleidfa, a dangosodd rhai eu hanghymeradwyaeth. Ystyr y gair Efengyl yw "newydd da;" felly, i'r rhai a gredant mewn cosbedigaeth dragywyddol, mae y syniad fod pedwar allan o bob pump o'r hil ddynol yn wrthrychau colledigaeth yn newydd da. Ar y tu arall, ai nid yw yr Iawnffyddwyr hyny a wrthodant y syniad o dragywyddol gosb yn gweled eu bod yn tynu ymaith sylfaen Iawnffyddiaeth trwy hyny?

——:o:——

Mae yn amlwg nad yw y Parch. Hugh Price Hughes yn bwriadu gadael i dymhor ei swydd fel Cadeirydd Cynadledd y Wesleyaid i fyned heibio heb wneyd rhywbeth tuag at wneyd y Cyfundeb hwn yn fwy ei allu a'i ddylanwad nag erioed. Yn ystod y mis, mae wedi bod yn cynal Cynadleddau trwy y wlad,

amcan pa rai yw dyfnhau bywyd ysbrydol yr eglwysi, yn enwedig y llafurwyr, y gweinidogion, y dosbarth, yr arweinwyr, athrawon yr Ysgol Sul, &c. Dyddorol oedd darllen hanes y gyntaf o'r Cynadleddau hyn yn Nghaerdydd. Gwelem ynddynt gynulliadau o ddynion oeddynt yn credu yn mhwysigrwydd y bywyd ysbrydol, ac yn awyddus am feddu mesur helaethach ohono. Wedi'r cyfan, y bywyd ysbrydol yw yr un peth gwir bwysig; mae pob cangen o'r Eglwys Gristionogol yn cyduno yn hyn, o leiaf, gan nad pa mor wahanol yw eu dulliau o enill y bywyd hwn. Mae y gwaith sydd wedi cael ei wneyd gan y Cyfundeb Methodistaidd o'r dechreu mor ardderchog, a'r gwaith sydd eisieu ei wneyd eto mor fawr, fel yr eiddunwn lwyddiant i'r ymgais hwn i'w wneyd yn fwy ei allu a'i ddylanwad er daioni nag erioed.

——:o:——

Mae gan genadon y gwahanol enwadau Iawnffyddol yn y Dwyrain lawer iawn o anhawsderau i gyfarfod â hwynt. Cyfyd llawer o'r anhawsderau hyn oddiar y syniadau hynod ac afresymol a draethir ganddynt yn nghlywedigaeth y rhai a geisiant eu troi at Gristionogaeth. Mae un cenadwr yn ddiweddar wedi adrodd yr hanesyn canlynol, fel engraifft o'r anhawsderau hyn. Yr oedd wedi bod yn pregethu uwchben cynulleidfa luosog ar y Drindod a'r Iawn. Ar y terfyn cymerodd yr ymddyddan a ganlyn le rhyngddo âg un o'i wrandawyr:—

Hindw: Yr ydych yn dyweyd fod Iesu Grist yn Dduw.

Cenadwr: Ydwyf.

Hindw: Beth! a Iesu Grist wedi marw?

Cenadwr: Ië.

Hindw: Yna nis gallai Iesu Grist fod yn Dduw, gan nad yw Duw wedi marw erioed. A ddywedwch hefyd fod Iesu Grist wedi cael ei eni o wraig?

Cenadwr: Dywedaf.

Hindw: Yna nis gallai Iesu Grist fod yn Dduw, gan na anwyd Duw o wraig erioed.

Dywedir gan lawer o dystion diduedd nad yw o'r un dyben i ddysgwyl am lwyddiant y Genadaeth yn yr India, cyhyd ag y bydd Cristionogaeth yn cael ei phregethu yn y ffurf Iawnffyddol ohoni. Mae yn amlwg fod yn y wlad enfawr hono, gyda'i 300—400 miliwn o drigolion, faes addfed i bregethu egwyddorion Cristionogaeth Ryddfrydig.

——:o:——

Beth fydd enw Eglwys y dyfodol? Mae pob crefyddwr Rhyddfrydig yn credu mai crefydd Ryddfrydig fydd crefydd Eglwys y dyfodol, ac na fydd gan yr hyn a elwir heddyw yn Iawnffyddiaeth yr un gyfran ynddi. Gan nad beth am hyn, mae yn waith dyddorol—yn enwedig pan nad oes genym un gwaith arall i'w wneyd—i geisio penderfynu wrth ba enw yr enwir

Eglwys Ryddfrydig y dyfodol. Cymerwn ni arnom ein hunain yr enw "Undodiaid." Ond bodola amryw gyfundebau mewn gwahanol ranau o'r ddaear ag ydynt, er nad yn foddlawn cydnabod eu hunain wrth yr enw hwn, eto yn dal syniadau duwinyddol a chrefyddol tebyg i'r eiddom ni. Mae Dr. Strong, sefydlydd ac arweinydd yr Eglwys Awstraliaidd, wedi bod yn traethu ei farn yn ddiweddar ar bwnc yr enw mwyaf tarawiadol i osod ar y cyfundebau—neu y mudiadau—Rhyddfrydig gyda'u gilydd. Gwrthyd ef yr enw Undodol am mai *term* duwinyddol ydyw; a chred Dr. Strong (yn iawn yn ddiamheu) mai crefydd, ac nid duwinyddiaeth, fydd rhwymyn undeb Eglwys y dyfodol. Yr enw awgrymir ganddo ef, fel yr un mwyaf tarawiadol, yw "Yr Eglwys Rydd Gatholig." Nid oes amheuaeth nad yw'r enw wedi bod yn graig rwystr ar ffordd ein llwyddiant fel enwad. Ond nid yw'r amser wedi d'od eto i'w gyfnewid am enw arall fydd yn dynodi ein safle yn fwy cywir. Ac hefyd nid yw'r enw o bwys mawr. Hyd y daw adeg y Milflwyddiant, am yr hwn y breuddwydia Dr. Strong, ac ereill, o amgylch, rhaid i bob cangen o'r "Eglwys Rydd Gatholig" weithio yn ei ffordd ei hun i daenu syniadau mwy rhesymol am dduwinyddiaeth a chrefydd, a gadael i Eglwys y dyfodol i ofalu am dani ei hun.

Hydref 17*eg*, 1898. SYLWEDYDD.

MANION AC HANESION.

LLWYDDIANT.—Bydd lluaws cyfeillion Mr. D. E. Jones, Teifi Mills, Llandysul, yn falch i glywed ei fod wedi enill y wobr am y cyfieithiad Saesoneg goreu o'r emyn adnabyddus, "Ar làn Iorddonen ddofn," a gynygiwyd er's ychydig amser yn ol, gan gyhoeddwyr y *Weekly Mail*, Caerdydd. Y peth sydd yn rhoddi neillduolrwydd i'r gystadleuaeth yw, nid maint y wobr, ond nifer yr ymgeiswyr, a phwysigrwydd rhai ohonynt yn mhlith enwogion Cymru. Clywir rhyw ddystaw sisial trwy'r wlad fod y Prifathraw Edwards, Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd, a'r Proffeswr Young Evans, Trefecca, yn mhlith y cystadleuwyr. Y tro yma bu raid iddynt, er mor uchel eu safle fel dynion dysgedig, i chwareu *second fiddle* i un o fechgyn talentog a gobeithiol Llandysul. Hyderwn y bydd y wobr yma, a enillodd Mr. Jones yn erbyn y fath gydymgeiswyr, yn ernes o lwyddiant mawr ei lyfr ar "Blwyfi Llangeler a Phenboyr," sydd yn mron bod yn barod i'w gyhoeddi. Cofia'r darllenydd, efallai, iddo enill y wobr o £10, o dan feirniadaeth Mr. Gwenogfryn Evans, ar hanes y plwyfi uchod yn Eisteddfod Castellnewydd Emlyn. Mae Mr. Jones hefyd yn un o ysgrifenwyr y "Gwersi ar Fywyd Iesu." cyhoeddedig gan y Gymdeithas Undodaidd Gymreig. Hir oes a phob llwyddiant iddo i wasanaethu ei genedl.

DOWLAIS.—Fel arfer, cynaliwyd cyfarfodydd diolchgarwch am y cynhauaf yn yr eglwys yma eleni, ar y Sul, Hydref 16eg, pryd yr oedd yn gwasanaethu y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin, y boreu a'r hwyr, a'r Parch. D. J. Williams, Merthyr, yn y prydnawn. Oedfaon Cymreig oeddynt trwy'r dydd, a mwynhawyd hwynt yn dda. Cafwyd pregethau grymus a chynulliadau lluosog. Yr oedd y capel, yr hwn oedd yn edrych yn brydferth iawn, wedi ei addurno erbyn y diwrnod â phob math o ffrwythau. Hyderwn y bydd i effeithiau daionus ddilyn.

Y Graig a Gellionen.—Cafwyd y fraint o gynal cyfres ddyddorol o gyfarfodydd pregethu haner-blynyddol yn y lleoedd hyn, dydd Sul a nos Lun, Medi 25ain a'r 26ain. Dau gawr y pwlpud oeddynt y Parchn. Dr. Griffiths, Pontypridd, a Lewis Williams, Rhydygwin. Traethasant Air yr Arglwydd i bedair torf o wrandawyr astud gydag eneiniad nefolaidd. Cafwyd blychau casglu llawnion i leihau dyled y frawdoliaeth. Diolchwn, ar ran yr eglwys a'r gweinidog, i bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniadau. Cafwyd cystal hin a welodd haul erioed.

Aberdar.—Rhoddwyd croesaw nad oedd angen ei well i'r Parch. Jenkyn Thomas a'i briod, ar eu dychweliad yn ol o'u mis mêl, gan yr eglwys yn Highland Place. Cynaliwyd cyfarfod neilltuol i wneyd hyny nos Iau, Hydref 6ed, ac ymddangosai pawb ar eu heithaf i ddangos eu hedmygedd o'u gweinidog. Siaradwyd gan luaws o foneddigion perthynol i'r eglwys, a dygent i gyd dystiolaeth uchel i Mr. Thomas fel boneddwr a gweinidog, a dymunent hapusrwydd a hir oes iddo ef a'i briod. Cyflwynwyd yn anrheg iddynt awrlais prisfawr, am yr hwn, ac am y teimladau cynes tuag ato ef a'i gymhares, y diolchodd Mr. Thomas yn fawr.

Merthyr. — Cynaliwyd y cyrddau diolchgarwch mewn cysylltiad â'r eglwys hon Hydref 9fed, pryd y cafwyd gwasanaeth gwerthfawr y Parch. Promotho Loll Sen. Yn anffodus, yr oedd yr eglwys ar adeg y cyrddau o dan gwmwl du o dristwch, yn herwydd marwolaeth un o golofnau goreu yr achos, sef Mr. Thomas, *ironmonger*, yr hyn a barodd i'r cynulliadau i fod yn llai lluosog na phe byddent mewn amgylchiadau mwy ffafriol. Er hyny i gyd, cafwyd cyrddau da—Mr. Sen, y cyfaill ieuanc o India bell, yn pregethu yn odidog iawn, a'r bobl yn mwynhau eu hunain wrth wrando ar ei hyawdledd.

Cefncoed. — Y nos Lun ganlynol, areithiodd Mr. Sen yn yr Hen Dŷ Cwrdd ar "Grefydd y Brahmo Somaj." Daeth torf fawr yn nghyd, yr hyn a barodd i'r capel fod yn rhy fychan o lawer i'w chynwys. Siaradodd Mr. Sen am dros awr o amser, a chafwyd dystawrwydd hollol, er galluogi pawb i glywed pob gair a ddisgynai dros ei wefusau. Barn unfryd y gwyddfodolion oedd, mai gwledd oedd bod yn bresenol.

PRIODAS.

Medi 27ain, yn Brondeifi, Llanbedr, gan R. C. Jones, Mr. David Jones, Glyncoch, Llandysul, â Miss Mary Williams, Clarence, Cwrtnewydd, Llanwenog.

MARWGOFION.

Gorphenaf 11eg, yn 73 oed, Anne Parry, Porthyrhyd, Llandysul, gan adael priod, dwy ferch, a mab yn eu galar ar ol ei cholli gyda rhybudd mor fyr. Hen wraig ddiwyd, onest, siriol ei hysbryd, er mewn amgylchiadau tlawd, ac na welodd, i ymddangosiad dynion, beth bynag, trwy ei hoes faith ond ambell i belydryn o heulwen bywyd. Cafodd y fraint o fagu mab sydd yn ddiacon ffyddlon, ac yn un o aelodau mwyaf gweithgar yr Ysgol Sul yn Llwynrhydowen; ac yn y fynwent hono y gosodwyd ei chorff i orphwys dydd Iau Gorphenaf 14eg. W. James, Brynhyfryd, yn gwneyd gwaith gweinidog ar yr achlysur.

Medi 13eg. Margaret Hopkin, Craigtrebanos, yn 39 mlwydd oed, ar enedigaeth plentyn. Claddwyd y dydd Iau dilynol yn nacar claddfa Gellionen, dan nodded bregethwrol ei gweinidog, y Parch. T. J. Jenkins. Dyma aelod arall yn llai yn y frawdoliaeth eto. Mae yr eglwys mewn adfyd yn barhaus. Pwy ddarlunia ddyoddefaint y cysegr? Gosodir bylchau gan y drefn yn mhraidd y gweinidog ffyddlawn. Mae achos y Nefoedd yn groeshoeliedig ar y pren Rhagluniaethol! Dysgwn, yn mha gyflwr bynag y byddom yndde, i fod yn ffyddlawn. Briod unig, cymer obaith; nac wyla. Chwithau, berthynasau, dyddanwch eich gilydd yn yr ymadroddion hyn: "Nid ein hewyllys ni, ond Dy ewyllys Di, O Dad, a wneler;" "Dysg i ni Dy lwybrau."

Medi 24ain, Thomas Thomas, baban

Mr. Thomas Thomas a Mrs. Sarah Thomas, Ty'rcapel, Brondeifi, yn dair wythnos oed. Claddwyd gweddillion y bychan yn mynwent eglwys Llanfair. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan Mr. R. C. Jones.

Medi 26ain, yn 81 mlwydd oed, Joseph Jenkins (Amnon II.) Trecefel, Tregaron. Claddwyd ei ran farwol y Gwener canlynol, yn ymyl ei berthynasau, yn mynwent Capelygroes. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca; yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. L. Williams ac E. E. Jenkins. Yr oedd yr angladd yn lluosog anarferol, yn cynwys dros 80 o gerbydau. Gadawodd yr ymadawedig weddw a chwech o blant ar ei ol—dau fab a phedair merch—i'r rhai y dymunwn y goreu o'r ddau fyd.

Medi 28ain, Mrs. Eleanor Williams, gwraig Mr. John Williams, Postgwyn, Pencareg, ger Llanbedr, a mam y Parch. D. J. Williams, Twynyrodyn, Merthyr, yn 72 mlwydd oed. Yr oedd wedi cael ei hamddifadu o'i chynefinol iechyd er's llawer o flynyddau, ac yn araf golli tir o flwyddyn i flwyddyn, a chyfryngau mwyniant dnearol yn graddol ddiflanu ymaith o'i gafael, nes iddi gael ei symud ar y dydd uchod, a hyny o'r diwedd yn gymharol sydyn, gan adael i alaru ar ei hol briod oedranus a dau o feibion, a pherthynasau ereill. Yr oedd yn aelod o eglwys Brondeifi; ac er yn analluog oherwydd ei hafiechyd i fynychu yr addoliad cyhoeddus yn y capel yn ddiweddar, ac er nad oedd ei natur un amser i wneuthur llawer o dwrw mewn perthynas i'w chrefydd, nid ydym yn sicr nad oedd gnddi fwy o'r sylwedd byw na llawer o'r rhai sydd yn fwy tryst-fawr yn eu cyflawniadau crefyddol. Menyw dawel, ddystaw, ddiwyd, a gofalus am ei chartref ei hunan, ac anmbarod i daflu llaid at ddrws cartref neb arall, oedd yr ymadawedig, ac eto digon gwyneb-agored i draethu ei barn yn onest yn ngwyneb pob dyn, os byddai galwad am hyny. Ar ddydd ei hangladd, daeth tyrfa luosog yn nghyd i hebrwng yr hyn oedd farwol ohoni i dŷ ei hir gartref, ac i ddangos eu parch a'u cydymdeimlad â'r galarwyr. Claddwyd hi yn mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan R. C. Jones, yn cael ei gynorthwyo gan W. S. Jones.

Hydref 7, Thomas Thomas, *ironmonger*, Merthyr Tydfil, yn 73 mlwydd oed. Yn marwolaeth Mr. Thomas, mae un o gedyrn wŷr Merthyr wedi cwympo, ac un ddolen yn llai yn y gadwen hono sydd yn ein cysylltu ni â'r oes o'r blaen. Ymddangosai Mr. Thomas i mi yn gyfuniad o holl nodweddion y boneddwr—yn dawel, yn batriarchaidd ei osgo, yn egwyddorol hollol yn holl gysylltiadau bywyd, yn ymdaflu yn egnïol i bob symudiad â thuedd ynddo i ddyrchafu dyn, ac yn ddyn ag oedd bob amser yn ceisio byw y grefydd a broffesai. Ganed ef yn y flwyddyn 1825, mewn ffermdy yn Nglyn-nedd; ond er cael manteision addysg i'r blant, symudodd ei dad i Benmoelallt, fferm yn agos i Goedycymer; ac oddiyno ymgyrchai Mr. Thomas a'r plant ereill yn ddyddiol i'r Cefn i ysgol y Parch. Owen Evans. Yn y flwyddyn 1850, ymsefydlodd yn Merthyr, a bu yn llwyddianus iawn fel masnachwr, gan ymgodi yn fuan i'r safle fwyaf anrhydeddus yn y dref. Anhawdd dirnad y golled ar ei ol yn nghapel bychan yr Undodiaid. Ile yr oedd yn hynod ffyddlon a gwerthgar, ac wedi bod yn aelod ohono er pan ddaeth i Ferthyr gyntaf. Yr oedd ei briod wedi ei ragflaenu i fyd yr ysbrydoedd ryw ychydig amser o'i flaen. Yn eu marwolaeth, collodd y plant dad a mam nad oedd yn bosibl cael rhai mwy tyner a gofalus. Yn Rhyddfrydwr trwyadl mewn gwleidiadaeth, cymerai ran flaenllaw gyda'i blaid pan fyddai galw am hyny. Gadawodd ar ei ol naw o blant, a brawd a chwaer, a diau eu bod yn teimlo eu colled yn fawr. Y dydd Mawrth canlynol, claddwyd y gweddillion yn nghladdfa gyhoeddus Coedycymer, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. D. J. Williams, gweinidog yr ymadawedig, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. Hathren Davies. Ar y Sul wedi yr angladd, pregethwyd pregeth angladdol yn nghapel Twynyrodyn gan Mr. Williams, adroddiad helaeth o'r hon a ymddangosodd yn y papyrau lleol.

Joseph Williams Argraffydd, Swyddfa'r "Tyst," Glebeland, Merthyr.